Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – CYHOEDDUS

COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

09:30 – 12:25 | 14/07/2026 | MS Teams

Cadeirydd	Marian Wyn Jones

Yn Bresennol (Aelodau)		Teitl	Sefydliad
Marian Wyn Jones (Cadeirydd)	MW-J	Aelod Annibynnol, Cadeirydd	IGDC
Alistair Klaas Neill	AKN	Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	IGDC
Marilyn Bryan Jones	MB-J	Aelod Annibynnol	IGDC
Yn bresennol			
Julie Ash	JA	Pennaeth Ystadau a Chydymffurfiaeth	IGDC
Henry Bales	HB	Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol	Atal Twyll Caerdydd a'r Fro
Stephen Chaney	SC	Pennaeth Archwilio Mewnol	Archwilio Mewnol PCGC
Mark Cox	MC	Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid	IGDC
Chris Darling	CD	Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC
Andrew Doughton	AD	Arweinydd Archwilio	PCGC
Anna Evans (ar gyfer eitem 5.3 yn unig)	AE	Cyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol	IGDC
Ifan Evans (ar gyfer eitem 4.2i)	IE	Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	IGDC

Alex Lawrence	AL	Hwb Systemau Rheoli Ansawdd	IGDC
Martyn Lewis	ML	Arweinydd Archwilio	PCGC
Chris Moreton	CM	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes	IGDC
Samantha Morgan	SM	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol	IGDC
Julie Robinson	JR	Ysgrifenyddiaeth y Cyfarfod	IGDC
Laura Tolley	LT	Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd	IGDC

Ymddiheuriadau			
Nathan Couch	NC	Arweinydd Archwilio	PCGC

Acronymau			
IGDC	Iechyd a Gofal Digidol Cymru	AS	Archwilio a Sicrwydd
AIA	Awdurdod Iechyd Arbennig	DPIF	Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol
BAF	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
DSPP	Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd	PSPP	Perfformiad Talu'r Sector Cyhoeddus
DDaT	Digidol, Data a Thechnoleg	CACh	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rhif yr Eitem	Eitem	Canlyniad	Cam Gweithredu
1	MATERION RHAGARWEINIOL		
1.1	**Croeso a Chyflwyniadau** Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Rhoddwyd croeso arbennig i'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. Cynhaliwyd y cyfarfod trwy Microsoft Teams ac atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai'n cael ei bostio ar wefan IGDC yn dilyn y cyfarfod.		
1.2	**Ymddiheuriadau am Absenoldeb** • Nathan Couch, Archwilio Cymru • Paul Evans, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Nodwyd	Dim i'w nodi
1.3	**Datganiadau o Fuddiant** Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2	AGENDA GYDSYNIO - I'W CHYMERADWYO		
2.1	**Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod 07 Ebrill 2026 – Cyfarfod Cyhoeddus a Phreifat Byr ac Eithriadol 24 Mehefin 2026.** **Penderfynodd** y Pwyllgor: **GYMERADWYO'R** cofnodion fel cofnod cywir o'r drafodaeth a fyddai ar gael i'r cyhoedd.	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
2.2	**Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru** **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI** Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.3	**Blaengynllun Gwaith** **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI** cynnwys Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor.	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.4	**Adroddiad Safonau Ymddygiad** **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI'R** Adroddiad Safonau Ymddygiad	Nodwyd	Dim i'w nodi
2.5	**Cylchlythyr Iechyd Cymru – Adroddiad Blynyddol Chwemisol** **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI** Cylchlythyr Iechyd Cymru – Adroddiad Blynyddol	Nodwyd	Dim i'w Nodi

2.6	**Adroddiad Ystadau a Chydymffurfiaeth** **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODYN** ar gyfer **SICRWYDD** yr Ystadau, ac Adroddiad Cydymffurfio	Nodwyd er Sicrwydd	Dim i'w nodi
2.7	**Adroddiad Ymgynghori a Chymeradwyo Dogfennau** **Penderfynodd** y Pwyllgor: **GYMERADWYO'R** canlynol: DHCW-POL-11 – Polisi IGDC ar Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd POL-POD-40 - Polisi Di-fwg a Di-fêp DHCW-STR-3 Strategaeth y Gymraeg	Cymeradwywyd	Dim i'w nodi
RHAN 3 – BUSNES Y CYFARFOD			
3.1	**Cofnod Gweithredu** Nododd y Pwyllgor fod un cam gweithredu wedi'i gofnodi o'r cyfarfod diwethaf a bod hwn ar y gweill ac i'w gwblhau yn y cyfarfod nesaf. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI** statws y Cofnod Gweithredu.	Nodwyd	Dim i'w nodi
RHAN 4	ARCHWILIO AC ATAL TWYLL		
4.1	**Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol** Cyflwynodd Stephen Chaney (StC), Dirprwy Bennaeth Archwilio Mewnol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Adroddiad Cynnydd yr Archwiliad Mewnol. • Daeth y ddau adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor â rhaglen waith 2025/26 i ben. • Roedd cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn rhaglen 2026/27 gyda sawl adolygiad yn agosáu at y cam adrodd drafft ac ymgysylltiad cadarnhaol yn cael ei dderbyn. Eglurodd SC fod amser wedi'i glustnodi o fewn cynllun 2026/27 ar gyfer gwaith yn ymwneud â gafael a rheolaeth ariannol fel rhan o'r adolygiad cyllid cynaliadwy, gan gynnwys gwaith hunanasesu. Gyda'r bwriad y byddai hyn yn cael ei wneud fel darn cenedlaethol o waith ledled Cymru lle bo'n briodol.	Er Sicrwydd	Dim i'w nodi

	Penderfynodd y Pwyllgor: **NODI'R** diweddariad Archwilio Mewnol er **SICRWYDD**.		
4.2	**Adroddiad yr Adolygiad Archwilio Mewnol** Cyflwynodd Martyn Lewis, Arweinydd Archwilio, PCGC (ML), ganlyniad un adolygiad o **Adroddiad Ymgynghorol Rhaglen Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru,** a oedd yn ystyried a oedd IGDC yn gweithredu ac yn monitro camau gweithredu a oedd yn deillio o'r adolygiad annibynnol. Nododd yr adroddiad, er bod risgiau cynhenid y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol IGDC, fod IGDC wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran cryfhau llywodraethu rhaglenni, egluro trefniadau llywodraethu a gwella ymgysylltiad rhanddeiliaid. Nodwyd pedwar mater, yn ymwneud â'r angen am ymarfer dysgu gwersi dyfnach; cofnodi gwersi ar y gofrestr gwersi sefydliadol, nodi arweinydd diogelwch clinigol yn ffurfiol o fewn trefniadau llywodraethu rhaglenni, ac effaith cyfranogiad y bwrdd iechyd ar gyflawni llwyddiannus. Adroddwyd bod camau gweithredu wedi'u datblygu ers yr archwiliad, gyda'r mwyafrif wedi'u cwblhau a'r camau gweithredu sy'n weddill i'w cwblhau erbyn diwedd mis Awst. Croesawodd Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth (IE), yr adroddiad a chadarnhaodd fod yr argymhellion wedi bod yn ddefnyddiol wrth gefnogi tryloywder, goruchwyliaeth a chamau gweithredu prydlon. Nododd gymhlethdod trefniadau llywodraethu'r rhaglen, gan gynnwys cyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd ar draws IGDC, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, a dywedodd fod gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru i gwblhau ailosodiad y rhaglen, cadarnhau cyllid a chefnogi cyflawniad y cyfnod sy'n weddill. Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed ers cynnal yr archwiliad, gan gynnwys gwell ymgysylltiad gan fyrddau iechyd a chwblhau'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **DERBYN** yr adolygiad archwilio er **SICRWYDD**.	Er Sicrwydd	Dim i'w nodi
4.4	**Diweddariad gan Bwyllgor Archwilio Cymru** Rhoddodd Andrew Doughton, Archwilio Cymru (AD) y wybodaeth ddiweddaraf am waith archwilio ariannol a pherfformiad. Tynnwyd sylw at y meysydd canlynol:	Er Sicrwydd	

- Roedd y gwaith cyfrifon wedi'i gwblhau ac roedd y Llythyr Ymholiadau Archwilio wedi'i gynnwys ar yr agenda er gwybodaeth.
- Cadarnhaodd y diweddariad archwiliad Perfformiad fod y Llythyr Cylch Gwaith Trawsnewid Digidol wedi'i gwblhau.
- Roedd gwaith maes ar gyfer yr Adolygiad Ystadau hefyd wedi'i gwblhau, gyda'r adroddiad drafft yn cael ei baratoi i wirio cywirdeb ffeithiol.
- Roedd gwaith ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dechrau ac yn mynd rhagddo'n dda.
- Disgwylid i'r gwaith Asesiad Strwythuredig ddechrau yn ddiweddarach yn yr haf, yn unol â'r rhaglen genedlaethol ehangach.
- Disgwyliwyd y byddai'r rhaglen waith gyffredinol wedi'i chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y sefyllfa'n adlewyrchu darlun mwy cadarnhaol na'r flwyddyn flaenorol.
- Nododd y Pwyllgor gynnwys dolenni yn yr adroddiad diweddaru i erthyglau mewnwelediad Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ofal heb ei drefnu a gofal wedi'i gynllunio, ynghyd â dolen i Gynllun Cydraddoldeb Strategol Archwilio Cymru.

Adroddiad Trawsnewid Digidol ac Ymateb IGDC

Cyflwynodd AD Adroddiad Archwilio Trawsnewid Digidol Archwilio Cymru, a oedd yn rhan o raglen ehangach GIG Cymru. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar drefniadau trawsnewid digidol mewnol IGDC, gan gydnabod y gwahaniaeth rhwng hyn a rôl strategol genedlaethol ehangach IGDC. Nododd yr adroddiad; arweinyddiaeth strategol gref, perchnogaeth y Bwrdd, ymgysylltiad staff, gwaith i leihau allgau digidol a gweithio mewn partneriaeth effeithiol. Roedd y meysydd i'w gwella yn cynnwys; cynlluniau trawsnewid digidol mewnol cliriach, gyda ffocws cryfach ar ganlyniadau, buddion, risgiau digidol mewnol, gallu'r gweithlu a risgiau seilwaith.

Nodwyd bod y chwe argymhelliad wedi cael eu derbyn gan y rheolwyr, gyda chamau gweithredu a dyddiadau gweithredu wedi'u cytuno.

Croesawodd IE yr adroddiad a nododd y byddai ei wahaniaeth rhwng trawsnewidiad mewnol IGDC a'i rôl

	genedlaethol yn cefnogi ystyriaeth bellach gan y Bwrdd. Roedd IGDC yn adrodd yn rheolaidd am raglenni digidol cenedlaethol mawr i'r Bwrdd, ond roedd angen mwy o weledded ynghylch sut roedd dulliau digidol yn gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd mewnol. Trafododd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch cyflawni ystwyth. Nodwyd bod IGDC yn defnyddio dulliau ystwyth sy'n seiliedig ar gynnyrch a chylchoedd cynllunio byrrach fwyfwy, gan gynnwys model "nawr, nesaf, yn ddiweddarach". Cadarnhaodd Archwilio Cymru barodrwydd i drafod sut y gallai sicrwydd adlewyrchu darpariaeth ystwyth, gydag Archwilio Mewnol yn cymryd rhan lle bo'n briodol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai disgwyl barn gyfunol ar archwiliadau trawsnewid digidol ar draws GIG Cymru o fewn dau i dri mis ac y byddai'n adlewyrchu canfyddiadau gan gyrff unigol yn bennaf. Tynnodd IE sylw at bwysigrwydd tynnu sylw at themâu system gyfan, gan nodi y gallai safbwynt cyffredinol GIG Cymru fod yn wahanol i gasgliad o ganfyddiadau sefydliadau unigol. Cytunodd AD i ystyried a ellid cynnwys dadansoddiad cymharol yn y crynodeb cenedlaethol, gan nodi cyfyngiadau posibl oherwydd trefniadau sefydliadol gwahanol. Cytunwyd hefyd i ystyried sut y gellid rhannu canfyddiadau ar allu'r gweithlu digidol, gan gynnwys rôl AaGIC a'r fframwaith gallu digidol, i gefnogi gwaith IGDC ar y proffesiwn digidol. **CAM GWEITHREDU: 20260714 -A01** Bydd Archwilio Cymru ac IGDC yn trafod sicrwydd ar gyfer darpariaeth ddigidol ystwyth, gan gynnwys Archwilio Mewnol yn ôl yr angen. **CAM GWEITHREDU: 20260714 – A02** Archwilio Cymru i ystyried cynnwys dadansoddiad cymharol o fuddsoddiad digidol yn y crynodeb cenedlaethol. **CAM GWEITHREDU: 20260714 – A03** Archwilio Cymru i ystyried rhannu canfyddiadau ar allu'r gweithlu digidol i gefnogi gwaith proffesiwn digidol IGDC. **Adroddiad Cyflenwi Llythyrau Cylch Gwaith** Cyflwynodd AD yr Adroddiad Cyflenwi Llythyrau Cylch Gwaith a'r llythyr Ymholiadau Archwilio er mwyn sicrwydd. Roedd croeso i'r adroddiad a nodwyd ei fod		**CAM GWEITHREDU: 20260714-A01** **CAM GWEITHREDU: 20260714-A02** **CAM GWEITHREDU:** A03

	yn darparu asesiad annibynnol defnyddiol o'r heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu wrth ymateb i ofynion llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu. Nodwyd bod IGDC wedi mabwysiadu dull cadarnhaol a rhesymegol drwy integreiddio'r gofynion i gynlluniau sefydliadol ehangach, er bod hyn yn ei gwneud hi'n anoddach dangos tystiolaeth o gyflawni yn erbyn gofynion penodol y llythyr cylch gwaith ar eu pen eu hunain. Trafododd y Pwyllgor bwysigrwydd ymgysylltu'n gynharach â Llywodraeth Cymru i gefnogi cynllunio a chydlyniad gwell rhwng y llythyr cylch gwaith, fframwaith y CTCI, canllawiau technegol, blaenoriaethau gweinidogol a gofynion statudol eraill. Nodwyd y byddai eglurder cynharach yn helpu i leihau pwysau cyflawni diwedd blwyddyn ac yn cefnogi llinell weledigaeth gliriach rhwng gofynion Llywodraeth Cymru a chyflenwi sefydliadol. Cydnabuwyd cymhlethdod y cyd-destun iechyd, gan gydnabod nad yw fframweithiau cynllunio a chyfarwyddebau lluosog bob amser yn cyd-fynd yn llawn. Rhoddwyd diweddariad ar Gyllid Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol (DPIF), gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau canlyniad yr adolygiad yn ddiweddar. Roedd rhywfaint o gyllid rhaglenni wedi'i leihau ac nid oedd rhai cyflwyniadau wedi cael cefnogaeth. Roedd gwaith ar y gweill i ymateb i lythyrau cyllido drafft, ailgychwyn rhaglenni a oedd wedi'u hoedi, ac adolygu cynlluniau cyflawni drwy reolaeth fewnol a llywodraethu bwrdd y rhaglen. Nodwyd effaith ansicrwydd cyllido ar gyflawni, gan gynnwys yr angen i gynnal y cyflawniad ar gyfradd is cyn cynyddu gweithgaredd, ar ôl i'r cyllid gael ei gadarnhau. Nododd y Pwyllgor fod argymhellion yr adroddiad, yn enwedig ynghylch ymgysylltu cynharach â Llywodraeth Cymru, wedi'u derbyn a'u bod yn cael eu datblygu. Myfyriodd yr aelodau hefyd ar yr angen i ystyried i ba raddau y dylai CTCI y dyfodol gynnwys gofynion y tu hwnt i'r rhai a nodir yn y llythyr cylch gwaith, gan sicrhau blaenoriaethu priodol ac eglurder cyfrifoldeb statudol. CAM GWEITHREDU: 20260714 -A04 Cytunwyd y byddai rôl y Pwyllgor Archwilio wrth olrhain cyflawni blaenoriaethau'r llythyr cylch gwaith yn cael ei hystyried ymhellach y tu allan i'r cyfarfod. Llythyr Ymholiadau Archwilio		CAM GWEITHREDU: A04

	Wedi'i dderbyn er gwybodaeth. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **DERBYN** Diweddariad Archwilio Cymru, Adroddiad Trawsnewid Digidol Archwilio Cymru, ac Adroddiad Cyflwyno Llythyr Cylch Gwaith er **SICRWYDD** a **NODI'R** Llythyr Ymholiadau Archwilio,		
4.4	**Traciwr Camau Gweithredu Archwilio** Cyflwynodd Laura Tolley, Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol/Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd (LT), y Traciwr Gweithredu Archwilio. Nododd y Pwyllgor fod tri adroddiad pellach wedi'u hychwanegu ers y cyfarfod blaenorol, gan arwain at ddeg cam gweithredu newydd a chyfanswm o 56 o gamau gweithredu ar y traciwr. Nododd yr aelodau'r cynnydd a wnaed, gyda 34 o gamau gweithredu wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod adrodd a 17 yn parhau ar y trywydd iawn ac yn destun monitro parhaus gan y Tîm Llywodraethu Corfforaethol ac arweinwyr perthnasol. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at bum cam gweithredu a oedd angen estyniadau i'w dyddiadau targed gwreiddiol, gan beryglu un cam gweithredu o adroddiad Asesiad Strwythur 2025 a phedwar o adroddiad Archwiliad Diwylliant a Llesiant Staff. Yn y drafodaeth, cefnogodd yr Aelodau'r angen am amserlenni cyflawni realistig a gofynnwyd a oedd rhai o'r dyddiadau targed gwreiddiol wedi bod yn rhy uchelgeisiol. Cadarnhawyd bod prosesau herio a sicrhau mewnol ar waith, gyda mewnbwn gan gydweithwyr archwilio mewnol ac allanol, i brofi pa mor gyraeddadwy oedd yr amserlenni arfaethedig. Cydnabu swyddogion arweiniol fod rhai terfynau amser wedi bod yn uchelgeisiol, yn enwedig lle roedd adolygiad allanol pellach neu waith annisgwyl wedi effeithio ar y ddarpariaeth, a chytunasant y dylid parhau i ystyried hyn wrth bennu dyddiadau targed yn y dyfodol. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI** statws y Traciwr Camau Gweithredu Archwilio. **CYMERADWYO'r** pum estyniad a amlinellir yn yr adroddiad.	Nodwyd a Chymeradwywyd	Dim i'w nodi
4.5	**Adroddiad Diweddaru ar Atal Twyll Lleol** Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Diweddaru Atal Twyll Lleol ar gyfer Chwarter 1. Tynnodd Henry Bales, Gwasanaethau Gwrth-Dwyll	Nodwyd a Chymeradwywyd	

	Caerdydd a'r Fro (HB), sylw at y gwaith a wnaed yn ystod y cyfnod: • Parhaodd mewnbwn Gwrth-dwyll i gael ei ddarparu fel rhan o sesiynau sefydlu corfforaethol, er bod y sesiynau hyn yn lleihau. • Roedd cylchlythyr Atal Twyll newydd wedi'i gyhoeddi. • Roedd un hysbysiad atal llawn wedi'i adolygu yn ystod y cyfnod, heb unrhyw broblemau sefydliadol na chamau gweithredu gofynnol wedi'u nodi. • Roedd gwaith ar y gweill i drosglwyddo risgiau twyll presennol i dempled Proffesiwn Gwrth-dwyll y Llywodraeth ac i gynnal adolygiadau risg cyffredinol ar draws y pum sefydliad a gefnogir gan y tîm, gan alluogi dull mwy cyson ac effeithlon. • Ni chychwynnwyd unrhyw honiadau nac ymchwiliadau newydd yn ystod y cyfnod adrodd. • Roedd un ymchwiliad mewnol yn parhau ar agor, roedd un ymchwiliad yn cael ei ddatblygu gan yr adran Gwrth-dwyll ac roedd un ymchwiliad yn ymwneud â gweithio yn rhywle arall yn ystod amser contract wedi'i gau heb i unrhyw dwyll gael ei ganfod. Trafododd yr aelodau'r mater ehangach a chynyddol o gyflogaeth eilaidd a gweithio deuol, gan nodi bod gwaith pellach yn cael ei wneud gyda Phobl a Datblygu Sefydliadol i gryfhau'r broses o gofnodi, monitro ac adrodd ar drefniadau o'r fath. Cytunwyd y dylid cyflwyno adroddiad ar y gwaith hwn i gyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol i roi sicrwydd mewn ymateb i'r tueddiadau sy'n cael eu nodi drwy weithgarwch gwrth-dwyll. **CAM GWEITHREDU: 20260714-A05** Adroddiad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i fonitro cyflogaeth eilaidd a gweithio deuol i'w gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol. **Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Atal Twyll Lleol 2025/26** Darparodd HB grynodeb o Adroddiad Blynyddol CF 2025/26 a oedd yn amlinellu'r gweithgaredd a wnaed yn y flwyddyn ariannol flaenorol.		CAM GWEITHREDU: 20260714-A05

- Roedd ffurflen Safon Swyddogaethol Gwrth-dwyll y Llywodraeth wedi'i chwblhau, wedi'i hadolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro a'i chyflwyno erbyn y dyddiad cau gofynnol, gyda IGDC wedi'i asesu'n wyrdd ar draws pob un o'r 12 maes.
- Cadarnhaodd yr adroddiad fod 85 o ddiwrnodau gwrth-dwyll wedi'u cynllunio wedi'u cyflawni ar gost o ychydig dros £27,000 gyda 20 o atgyfeiriadau newydd wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn, a phump ohonynt wedi'u symud ymlaen i ymchwiliad.
- Adroddwyd ffigur atal twyll o ychydig o dan £115,000 mewn perthynas â thwyll mandad a alluogwyd gan seiber a effeithiodd ar feddygfeydd teulu, ac roedd un ymchwiliad yn parhau gyda'r tîm cenedlaethol.
- Roedd gan IGDC lefel uchel o ymwybyddiaeth o atal twyll ar draws y sefydliad, gyda chydymffurfiaeth e-ddysgu gorfodol yn fwy na 98%, gyda hwn yr uchaf yng Nghymru.
- Roedd y presenoldeb mewn sesiynau ymwybyddiaeth wedi lleihau, gan adlewyrchu'r ffocws cynyddol ar e-ddysgu gorfodol a gweithgarwch sefydlu corfforaethol amrywiol.

Mewn ymateb i gwestiynau ynghylch erlyniadau gweithwyr mewn cyflogaeth ddeuol, esboniwyd nad oedd unrhyw erlyniadau lleol wedi'u cwblhau eto mewn perthynas â'r mater hwn, er bod ymchwiliadau'n parhau a byddai achosion yn cael eu symud ymlaen i erlyniad, lle gellid cyrraedd y trothwy tystiolaethol.

Roedd yr aelodau'n cydnabod cymhlethdod profi troseddau i'r safon droseddol, yn enwedig lle'r oedd cyflogwyr eraill yn rhan o'r broses. Yn ogystal, nodwyd cyfeiriad strategol datblygol Gwasanaethau Atal Twyll y GIG yng Nghymru tuag at ddulliau sy'n canolbwyntio mwy ar atal ac sy'n cael eu harwain gan wybodaeth, a'r rôl bwysig i IGDC o ystyried cysylltiadau â seiberddiogelwch, gweithio o bell a chydnerthedd.

Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad, gan nodi'r Polisi Atal Twyll wedi'i ddiweddaru yn dilyn newidiadau deddfwriaethol, a diolch i'r tîm Atal Twyll am eu gwaith parhaus.

Penderfynodd y Pwyllgor:

NODI'R Adroddiad Cynnydd y Gwasanaeth Atal Twyll a **CHYMERADWYO** Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth

	Atal Twyll 2025/26		
RHAN 5	ADRODDIADAU LLYWODRAETHU		
5.1	**Adroddiad Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddio** Cyflwynodd Alex Lawrence, Rheolwr Systemau Rheoli Ansawdd, (AL) yr Adroddiad Ansawdd a Rheoleiddio. Nododd y Pwyllgor y canlynol: • Perfformiad cryf parhaus ar draws ansawdd a chydymffurfiaeth reoleiddiol. • Roedd archwiliad allanol o Arolygiad Seiberddiogelwch y Sefydliad Rhyngwladol er Safoni 27001 wedi'i gwblhau'n llwyddiannus, gyda dau ddiffyg cydymffurfio bach a thri chyfle i wella wedi'u nodi. • Parhaodd gweithgaredd gwella ansawdd yn gadarnhaol, gyda 240 o gydweithwyr wedi'u hyfforddi trwy'r rhaglen hyfforddi gwella pum munud, gan gyflawni cyfradd boddhad o 90%, a 64 o welliannau wedi'u cyflwyno. • Mae gweithgaredd Kaizen hefyd wedi'i gyflwyno, gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud â rotas ar alwad, cynllunio ar gyfer argyfyngau a'r tîm safonau data. • Mae perfformiad mewnol yn parhau'n gryf, gyda 92% o'r ddogfennaeth o fewn y dyddiad adolygu ar yr ECMS a 92% o'r anghydffurfiaethau o fewn y targed. • Parhaodd gweithgaredd rheoleiddio i ganolbwyntio ar reoliadau a pharodrwydd dyfeisiau meddygol, gyda gwaith yn mynd rhagddo ar ffeiliau cynnyrch System Brysbennu Manceinion i baratoi i'w cyflwyno i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd. Croesawodd y Pwyllgor y gwaith gwella a gofynnodd a oedd gweithgaredd Kaizen hefyd yn cael ei ddefnyddio i nodi a chael gwared ar dasgau neu brosesau anghynhyrchiol, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar ffyrdd newydd o weithio. Cadarnhawyd bod gweithgaredd Kaizen yn cynnwys mapio prosesau i nodi gweithgaredd diangen, symleiddio prosesau, lleihau amser a dreulir ac asesu'r manteision amser a chost	Nodwyd a Chymeradwywyd	Dim i'w nodi

	cysylltiedig. **Adroddiad Ansawdd Blynyddol** Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol drafft ar gyfer 2025/26, gan nodi y byddai'n destun cyhoeddiad terfynol a fformatio graffig. Roedd yr adroddiad yn nodi amcanion a chyflawniadau'r Tîm Ansawdd, ynghyd â chyflawniadau sefydliadol dethol wedi'u mapio yn erbyn meysydd a galluogwyr y Ddyletswydd Ansawdd. Ymhlith yr uchafbwyntiau allweddol roedd cynnydd gydag Ap GIG Cymru, gweithgaredd presgripsiynau rheolaidd ac arbedion amser cysylltiedig ar gyfer meddygfeydd teulu, hyfforddi hyrwyddwyr cynhwysiant digidol, cyhoeddi'r Fframwaith Ansawdd, cynnal ardystiadau y Sefydliad Rhyngwladol er Safoni a BS mawr, cymorth ar gyfer gweithgaredd arolygu a mwy o hyfforddiant a gweithgaredd gwella ansawdd. Nododd y Pwyllgor y gwaith parhaus i ffurfioli'r System Rheoli Ansawdd, datblygu a chymeradwyo cynlluniau ansawdd sefydliadol, sefydlu'r Grŵp Gwella Ansawdd, a chryfhau adrodd "parhaol". Croesawodd yr aelodau'r adroddiad cynhwysfawr a chydnabu'r cynnydd sylweddol a wnaed wrth ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd ar draws y sefydliad. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar effaith gadarnhaol y gwaith “Beth Sy’n Bwysig i Chi”, statws a datblygiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Tîm Ansawdd yn y dyfodol, a’r cyfle i driongli gweithgaredd ansawdd â phwysau sefydliadol ehangach, gan gynnwys llwyth gwaith yn ystod uwchgyfeirio. Nododd hefyd y dylai fersiynau yn y dyfodol ddangos sut mae ansawdd yn cael ei ymgorffori o fewn gweithgareddau’r Gymraeg ar draws y sefydliad. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI’R** Adroddiad Ansawdd a Chydymffurfiaeth Rheoleiddiol a CHYMERADWYO'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol		
5.2	**Diweddariad Cyllid a Chaffael**	Nodwyd	Dim i’w nodi

Rhoddodd Chris Moreton, Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (CM) grynodeb byr o'r diweddariad cyllid cyn gwahodd cydweithwyr i gyflwyno uchafbwyntiau'r sleidiau:-

i. Adroddiad Archeb Prynu Gwerth Uchel a Chronnus

Yn ystod y cyfnod adrodd o 24 Mawrth i 24 Mehefin 2026, proseswyd saith archeb gwerth uchel oedd yn fwy na £750k. Roedd y trafodion hyn wedi cael eu hadolygu drwy'r prosesau sefydledig ac wedi'u cynnwys yn y sefyllfa gronnus a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Adroddiad Cydymffurfiaeth Caffael a Chynllun Dirprwyo

Cyflwynwyd yr uchafbwyntiau allweddol o'r Adroddiad Cydymffurfio â Chynllun Caffael a Dirprwyo:

- Tair gweithred tendr sengl gyda chyfanswm gwerth o £507,250 heb gynnwys TAW
- Pedwar Hysbysiad Rheoli Newid gyda chyfanswm gwerth o £100,463 heb gynnwys TAW.
- Roedd y gwerth cyfunol a adroddwyd yn £607,713 heb gynnwys TAW

Yn y drafodaeth, ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch sut y dangoswyd gwerth am arian mewn perthynas a hepgoriadau tendr sengl, gan gynnwys a oedd opsiynau amgen wedi'u hystyried ar draws yr achosion unigol.

Cadarnhawyd bod rheolaethau a gwiriadau sefydledig yn cael eu dilyn, gan ystyried gwerth cyffredinol y contract a natur y gwariant. Lle mai dim ond darparwyr penodol oedd yn gallu cyflawni'r gweithgaredd gofynnol, dilynwyd y broses briodol, gyda'r tîm masnachol yn negodi yn ôl yr angen i gefnogi'r gwerth gorau.

ii. Colledion a Thaliadau Arbennig

Ni adroddwyd am unrhyw golledion na thaliadau arbennig.

iii. Adolygiad Gafael a Rheolaeth Ariannol

Cyflwynodd Mark Cox, Cyfarwyddwr Cyswllt Cyllid, yr Asesiad Gafael a Rheolaeth Ariannol a

	gynhaliwyd mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru ac a aseswyd yn erbyn templed cenedlaethol GIG Cymru. Rhoddodd yr adolygiad sicrwydd rhesymol bod gan IGDC amgylchedd rheoli ariannol cadarn, gyda chryfderau mewn rheolaeth gyllidebol, rheolaeth ariannol a rheolaethau'r gweithlu. Nodwyd meysydd i'w gwella mewn llywodraethu achosion busnes, rheoli buddion a goruchwylio perfformiad cyflenwyr, i'w datblygu trwy gynllun gwella wedi'i dargedu. Yn ystod y drafodaeth, nododd y Pwyllgor y byddai cryfhau prosesau gwerthuso buddsoddiadau yn her allweddol i'r sefydliad. iv. Amcanion Caffael Cymdeithasol Cyfrifol Cyflwynodd CM y papur a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr Amcanion Caffael Cymdeithasol Cyfrifol, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Mae'r amcanion yn cefnogi dyletswyddau'r sefydliad i gyhoeddi a chyflawni amcanion caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, wedi'u hategu gan strategaeth ac adroddiad cynnydd blynyddol. Nododd y Pwyllgor fod y chwe amcan yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac amcanion lles y sefydliad. Ar ôl cael eu cymeradwyo, byddai'r amcanion yn cael eu hymgorffori mewn caffaeliadau perthnasol ac yn cael eu halinio, lle bo'n briodol, â strategaeth gaffael genedlaethol Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru sy'n datblygu. Nodwyd y byddai'r adroddiad blynyddol cyntaf yn cael ei baratoi ar ôl diwedd y flwyddyn. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI,** er **SICRWYDD** y Diweddariad Cyllid a Chaffael a **CHYMERADWYO'R** Amcanion Caffael Cymdeithasol Cyfrifol.		
5.3	**Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd – Ymchwiliad Dwfn – Adolygiad Gwerthuso a Datblygu Perfformiad** Rhoddodd Samantha Morgan, Cyfarwyddwr Pobl a	Nodwyd	Dim i'w nodi

	Datblygu Sefydliadol (CD) ac Anna Evans sesiwn friffio i'r Pwyllgor ar y broses AGDP a oedd yn adolygu cydymffurfiaeth yn erbyn y targed statudol o 85% dros gyfnod o 14 mis. Canolbwyntiodd yr adolygiad ar a oedd AGDP wedi'u cwblhau a'u cofnodi, gydag ansawdd y trafodaethau i'w ystyried trwy archwiliad ymgynghorol Chwarter 4. Nododd yr adolygiad amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gydymffurfiaeth, gan gynnwys pwysau gweithredol, prosesau anghyflawn, newid sefydliadol, bylchau arweinyddiaeth a phroblemau hierarchaeth ESR. Roedd cydymffurfiaeth wedi gwella o 80.38% ar ddiwedd mis Ebrill 2026 i 87.6% erbyn 13 Gorffennaf, gan osod y sefydliad uwchlaw'r targed. Nododd y Pwyllgor y gwelliant a'r rheolaethau sy'n cael eu cyflwyno i gynnal perfformiad, gan gynnwys nifer o brosesau. Pwysleisiodd y Pwyllgor y dylai AGDP barhau i fod yn ystyrlon a chanolbwyntio ar ddatblygiad personol, yn hytrach na chael eu trin fel ymarfer cydymffurfio yn unig. Cadarnhawyd bod y modiwl My Perform o fewn My LMS wedi'i dargedu i'w weithredu ym mis Medi a disgwylir iddo wella gweledegd amcanion, adolygiadau hwyr, adrodd ar newidiadau llinell a chydymffurfiaeth. Cymerodd y Pwyllgor sicrwydd bod achosion yr amrywiad wedi'u deall, bod cydymffurfiaeth wedi gwella uwchlaw'r targed a bod rheolaethau cryfach yn cael eu gweithredu i gynnal gwelliant. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI'R** daith graffu dwfn AGDP		
5.4	**Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** Rhoddodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, ddiweddariad ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol: • Mae 17 o risgiau ar y gofrestr risgiau	Trafodwyd	Dim i'w nodi

	corfforaethol, ac mae tri ohonynt wedi'u neilltuo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. • Ers y cyfarfod blaenorol, roedd chwe risg wedi'u hychwanegu a phump wedi'u dileu. • Roedd gwaith ar y gweill i gytuno ar lefelau goddefgarwch risg ar gyfer rhaglenni mawr ac egluro llwybrau uwchgyfeirio i Lywodraeth Cymru. • DHCW0331 - Cyllid Adnoddau Cyfnod Penodol. Roedd gwaith lliniaru wedi symud ymlaen mewn perthynas â'r cyllid adnoddau tymor penodol. • DHCW0337 – Model Cyllido Datblygu a Gwasanaethau Digidol Cynaliadwy – Roedd IGDC wedi cyflwyno ei adolygiad sylfaenol i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau o 30 Mehefin ac roedd yn aros am adborth. Disgwyliwyd i'r adolygiad gefnogi trafodaethau yn y dyfodol ar gyllid cynaliadwy, wedi'i lywio gan ddata cyllido hanesyddol, meincnodi HFMA a gwybodaeth gymharol a gefnogwyd gan Gartner. • DHCW0355 – Llythyr Cylch Gwaith Oedi Recriwtio – parhaodd yr oedi recriwtio i effeithio ar gapasiti a chyflenwi. Roedd pedair rôl hanfodol wedi cael eu huwchgyfeirio i Lywodraeth Cymru i gael cymeradwyaeth eithriadol, ac roedd Grŵp Gweithredu Adnoddau Strategol wedi'i sefydlu i gefnogi defnydd tymor byr. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **DRAFOD** y Gofrestr Risg Gorfforaethol		
5.5	**Adroddiad yr Iaith Gymraeg** Derbyniodd y Pwyllgor dair dogfen Iaith Gymraeg; Adroddiad Blynyddol Cynllun y Gymraeg, Adroddiad Blynyddol Mwy na Geiriau yn Unig a Strategaeth Gymraeg gyntaf Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chymunedau. Rhoddodd yr adroddiadau sicrwydd ynghylch gweithgarwch cydymffurfio, cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a gwaith parhaus i gryfhau gallu'r Gymraeg ar draws y sefydliad. Croesawodd y Pwyllgor y Strategaeth fel carreg filltir bwysig, gan nodi ei huchelgais i symud y tu hwnt i gydymffurfio a chefnogi datblygiad IGDC fel sefydliad dwyieithog enghreifftiol.	Nodwyd a Chymeradwywyd	

	Nododd yr aelodau'r risgiau allweddol sy'n ymwneud â gallu'r gweithlu, recriwtio wedi'i dargedu a'r angen i ymgorffori ystyriaethau'r Gymraeg o fewn prosesau recriwtio craidd y sefydliad. **CAM GWEITHREDU: 20260714-06** Cytunwyd y byddai'r cyllid ar gyfer recriwtio i'r Gymraeg yn cael ei gadarnhau yn yr adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Yn ogystal, croesawodd y Pwyllgor y targedau ymestynnol a nodir yn y strategaeth a gofynnodd am i'r Pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni, risgiau a chynnydd yn erbyn y map ffordd drwy adrodd yn rheolaidd. **Penderfynodd** y Pwyllgor: **NODI** adroddiad y Gymraeg a Mwy na Geiriau; **CYMERADWYO** Strategaeth y Gymraeg		**CAM GWEITHREDU: 20260714-06**
RHAN 6	**MATERION I GLOI**		
6.1	**Adroddiad Crynhoi Cynnydd y Pwyllgor i'r Bwrdd** Bydd y Cadeirydd yn gweithio gyda Llywodraethu Corfforaethol. • Materion a phwyntiau allweddol a drafodwyd.	Trafodwyd	Dim i'w nodi
6.2	**Unrhyw Faterion Brys eraill** Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi.	Nodwyd	Dim i'w nodi
6.3	**Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:** • 06 Hydref 2026.	Nodwyd	Dim i'w nodi